Cyngor
Fferyllol
Cyffredinol

Cynllun Strategol
2013 - 2016

Cyngor
Fferyllol
Cyffredinol

Cynllun Strategol
2013 - 2016

Cynllun strategol i'w gyflwyno i'r Senedd ac i Senedd yr Alban yn unol â pharagraff 8 atodlen 1 Gorchymyn Fferylliaeth 2010.

Cynnal safonau a ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (heblaw'r logo a'r brandio) am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, gyhyd â'i fod yn cael ei atgynhyrchu yn gywir a heb fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ac enwi teitl y ddogfen. Pan fo deunyddiau gan drydydd parti wedi eu nodi, rhaid cael caniatâd deiliad yr hawlfraint hwnnw.

(h) Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2012

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon i **communications@pharmacyregulation.org** neu gallwch ffonio ein canolfan cyswllt i gwsmeriaid ar **020 3365 3400**.

Mae'r ddogfen hon ar gael o'n gwefan **www.pharmacyregulation.org/resources/corporate-publications** a gellir ei lawrlwytho o **www.official-documents.gov.uk**

Cynnwys

1 Pwy ydym ni
2 Ein swyddogaethau
3 Cyd-destun ein gwaith
4 Ynghylch y cynllun strategol
4 Ein hegwyddorion allweddol

Pwy ydym ni

Pwy ydym ni

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC) yw'r sefydliad statudol annibynnol sy'n gyfrifol am reoleiddio gweithwyr fferyllol proffesiynol a lleoliadau fferyllol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Sefydlwyd y CFfC gan Orchymyn Fferylliaeth 2010.

Llywodraethir y CFfC gan 14 o aelodau. Mae eu hanner yn bobl lleyg a'r hanner arall yn fferyllwyr neu'n dechnegwyr fferyllol.

Ein cenhadaeth

Rydym ni'n hybu ac yn cynnal iechyd a diogelwch defnyddwyr gwasanaethau fferyllol.

Ein gweledigaeth

Ein nod yw ennyn ffydd y cleifion a pharch aelodau cofrestredig, gan reoleiddio'n effeithiol mewn ffordd sy'n cynrychioli gwerth am arian.

Ein gwerthoedd

Yn ein holl waith, mae'n nod gennym i

- roi'r flaenoriaeth bennaf i iechyd a diogelwch cleifion
- canolbwyntio ar wella
- gallu ymateb i newidiadau
- datblygu polisïau sy'n gynhwysol
- bod yn annibynnol ac yn deg
- dangos parch at eraill
- sicrhau bod rheoleiddio yn gymesur.

Mae ein cyngor wedi mabwysiadu egwyddorion bywyd cyhoeddus Nolan ac wedi ymrwymo at ddefnyddio'r egwyddorion hyn yng ngwaith y corff llywodraethu.

Ein swyddogaethau

Prif swyddogaethau'r CFfC fel y'u disgrifir yng Ngorchymyn Fferylliaeth 2010 yw:

- sefydlu a chynnal cofrestr o fferyllwyr, technegwyr fferyllol a lleoliadau y mae, neu y bydd, busnes fferyllol yn weithredol ynddynt;
- gosod a hybu safonau ar gyfer ymarfer fferyllol diogel ac effeithiol mewn fferyllfeydd cofrestredig;
- gosod anghenion y gellir eu defnyddio i gyfeirio atynt fel rhai sydd yn rhaid i aelodau cofrestredig eu cyrraedd i ddangos eu bod yn addas i ymarfer;
- hybu ymarfer diogel ac effeithiol gan aelodau cofrestredig (yn cynnwys, er enghraifft, gyfeirio at godau ymddygiad a moeseg yn ymwneud â fferylliaeth);
- gosod y safonau ac anghenion addysg, hyfforddiant, caffael profiad a datblygiad proffesiynol parhaus sydd ar fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol eu hangen i allu cael eu cynnwys ar y Gofrestr neu i dderbyn anodiad yn y Gofrestr ac i aros yn gymwys; a
- sicrhau bod ein haelodau cofrestredig yn parhau'n addas i ymarfer.

Cyd-destun ein gwaith

Mae proffesiynoldeb fferylliaeth yn dod yn fwyfwy pwysig wrth i ymarfer fferylliaeth barhau i ddatblygu ac amrywio. Yn sgil y newidiadau hyn, daw posibilrwydd o fwy o fudd i ddefnyddwyr gwasanaeth ac i iechyd y cyhoedd, drwy i fferylliaeth gyfrannu mewn ffordd fwy clinigol at iechyd a lles. Law yn llaw â'r datblygiadau hyn, mae angen i ni fod yn ymwybodol o'r risgiau y mae gofyn i'r system reoleiddio eu hystyried. Ni all y system reoleiddio ddelio'n benodol gyda'r amrediad cynyddol o faterion y mae gweithwyr fferyllol yn gallu eu hwynebu wrth eu gwaith, ac ni ddylai geisio gwneud hynny. Yr hyn sy'n bennaf gyfrifol am ddiogelwch cleifion a'r cyhoedd ar lefel feunyddiol yw proffesiynoldeb aelodau cofrestredig unigol. Mae system o reoleiddio cymesur ac effeithiol yn darparu sail gadarn ar gyfer

- gallu a hyder aelodau unigol i gofleidio eu cyfrifoldebau proffesiynol eu hunain a'u cyflawni ac
- ymrwymiad cyffredinol y maes fferyllol i broffesiynoldeb.

Mae trefniadau gwasanaethau iechyd a gofal, ac addysg a hyfforddiant gweithwyr iechyd proffesiynol, yn dal i ddatblygu mewn gwahanol ffyrdd ymhob un o wledydd Prydain Fawr. Fel rheolydd mae angen i ni gydnabod y gwahaniaethau hyn tra'n sicrhau cysondeb safon a chysondeb canlyniadau i gleifion.

Mae cleifion a'r rheiny sy'n eu cynrychioli wedi galw am integreiddio'r gwasanaethau iechyd a gofal y maent yn eu derbyn; law yn llaw â hyn mae cleifion yn disgwyl fwyfwy y bydd rheoleiddio hefyd yn fwy integredig (yn cynnwys rheoleiddio unigolion a sefydliadau sydd â chyfrifoldeb corfforaethol dros ddarparu gwasanaethau), er mwyn cau bylchau a gorgyffwrdd rheoleiddio, yn nhermau safon a diogelwch.

Mae datblygiadau technolegol, sy'n arwain at feddyginiaethau newydd a systemau newydd i'w gweinyddu a'u dosbarthu, ynghyd â dealltwriaeth ddyfnach gan y cyhoedd am feddyginiaethau, yn creu cyfleoedd newydd i gleifion. Rhaid i'r broses rheoleiddio beidio â llesteirio'r cyfleoedd hyn, ond rhaid iddi hefyd fod yn wyliadwrus o'r risgiau newydd sydd yn cael eu creu ac y mae'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol a darparwyr gwasanaeth eu rheoli'n effeithiol.

Mae'r gwaith a wnaed gennym i ddatblygu a diweddaru'r cynllun strategol hwn wedi tynnu ar y gwersi a ddysgwyd gennym yn ystod y ddwy flynedd ers ein sefydlu ac o'n dealltwriaeth o gyfeiriad polisi rheoleiddio ar lefel Brydeinig, yn cynnwys Enabling Excellence, ac ar lefelau Ewropeaidd a rhyngwladol.

Disgwyliwn y bydd pob rheolydd yn dal i gael ei scriwtineiddio a bod yn atebol am ei berfformiad, y graddau y cyflawnwyd ei amcanion ac am ei effeithiolrwydd a gwerth am arian. Ni all unrhyw gorff rheoleiddio yn unrhyw faes gymryd bod achos busnes rheoleiddio yn amlwg i bawb, ac nid ydym yn cymryd cefnogaeth y cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a gwleidyddion yn ganiataol. Rydym ni'n ymrwymedig i gyflawni'r dasg sy'n ofynnol gennym yn ôl y ddeddfwriaeth mewn ffordd sy'n ychwanegu at – yn hytrach na thynnu oddi wrth – ein gwerth i fferylliaeth ac i ofal iechyd yn fwy cyffredinol.

Yn anad dim, mae ein cynllun strategol yn adlewyrchu'r flaenoriaeth sydd gennym i gyflawni ein swyddogaethau craidd - cyflawni ein hamcanion fel y nodir hwynt mewn deddfwriaeth, a hynny mewn ffordd effeithiol ac effeithlon - ynghyd â'r gwaith parhaus o ddatblygu a gwella sy'n ofynnol gan reolydd cyfoes.

Ynghylch y cynllun strategol hwn

Ynghylch y cynllun strategol hwn

Mae'r cynllun strategol hwn yn crynhoi yr hyn yr anelwn at ei gyflawni dros gyfnod o dair mlynedd. Mae'r strategaeth hon yn cyd-fynd â chynllun corfforaethol tair mlynedd sy'n esbonio sut byddwn yn cyflawni'r amcanion a chyllido'r gwaith.

Cyflwynwyd ein cynllun strategol cyntaf, am y cyfnod 2012 tan 2015, gerbron y Senedd a Senedd yr Alban ym mis Medi 2011. Fel sy'n ofynnol gan y Gorchymyn Fferylliaeth rydym nawr wedi diweddaru'r cynllun strategol flwyddyn yn ddiweddarach. Mae'r cynllun nawr yn berthnasol i'r cyfnod rhwng 2013 a 2016. Drwy ddiweddaru'n cynllun strategol yn flynyddol rydym yn sicrhau bod y cynllun strategol yn cael ei adolygu'n gyson ac yn parhau'n berthnasol a chyfredol.

Ein hegwyddorion allweddol

Rydym wedi nodi pump egwyddor allweddol sydd angen gweithredu arnynt dros y tair mlynedd nesaf, sef:

1. Cyflawni ein gwasanaethau rheoleiddio craidd mewn ffordd sy'n addas at ddibenion y presennol a'r dyfodol
2. Cryfhau ein gallu i fesur a gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ein perfformiad gweithredol
3. Cyfathrebu ac ymwneud mewn ffordd effeithiol gyda phrif randdeiliaid
4. Rhagweld ac ymateb i ddatblygiadau mewn fferylliaeth a gofal iechyd
5. Sicrhau bod gennym y bobl gywir yn gweithio gyda ni a bod polisïau a gweithdrefnau'n sefydliad hefyd yn addas at eu diben

Bydd y pum prif egwyddor hyn yn llywio ein cynlluniau busnes dros y tair mlynedd nesaf. Drwy gydol y gwaith a wnawn i gyflawni'r amcanion hyn, byddwn yn parhau i weithredu ar ein penderfyniad i wneud hynny mewn ffordd fydd yn hybu a rhoi sail gadarn i broffesiynoldeb aelodau unigol a'r proffesiynau fferyllol yn eu cyfanrwydd. Ein prif nodau yn y bum egwyddor dros y tair mlynedd nesaf yw:

1. Cyflawni ein gwasanaethau rheoleiddio craidd mewn ffordd sy'n addas at ddibenion y presennol a'r dyfodol

a. Cyflawni ein swyddogaethau statudol mewn modd effeithiol ac effeithlon

b. Adolygu a, phan fo angen, newid ein gweithdrefnau a'n dulliau gorfodi addasrwydd ymarfer, yn cynnwys rheoleiddio fferyllfeydd cofrestredig, a datblygu dull mwyfwy effeithiol ac effeithlon o reoleiddio mewn ffordd gymesur

c. Gan adeiladu ar ymrwymiad y CFfC at ail-ddilysu a'r egwyddorion a gytunwyd, datblygu'n cynlluniau i roi mwy o sicrwydd i'r cyhoedd ynghylch addasrwydd parhaus aelodau cofrestredig y CFfC i ymarfer

d. Dylanwadu ar gysyniad a chynllun fframwaith deddfwriaethol cyffredinol ar gyfer rheoleiddio iechyd proffesiynol a bod yn barod i fanteisio ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil y fframwaith newydd wrth iddo gael ei ffurfio

e. Cyfrannu at ddatblygiad polisi rheoleiddio cenedlaethol mewn ffyrdd sy'n hybu gwerthoedd rheoleiddio'r CFfC

2. Cryfhau ein gallu i fesur a gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ein perfformiad gweithredol

a. Gweithredu systemau gwybodaeth a gweinyddol angenrheidiol newydd i gefnogi'n hymdrech i weithredu'n fwy effeithiol ac i greu gwell profiad i'r rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau

b. Sefydlu safonau gwasanaeth ac effeithlonrwydd newydd - ac amcanion gwella effeithiolrwydd mesuradwy - ac adrodd ar y rhain yn gyson

c. Cynnal a pharhau i wella ein llywodraethu a'n trefniadau sicrwydd

3. Cyfathrebu ac ymwneud mewn ffordd effeithiol gyda phrif randdeiliaid

a. Estyn allan at gleifion, gofalwyr, teuluoedd a chymunedau er mwyn

- eu galluogi i ddylanwadu ar ddatblygiad safonau fferylliaeth mewn ffordd sy'n adlewyrchu eu blaenoriaethau
- eu hysbysu am y safonau y gallant eu disgwyl gan weithwyr fferyllol proffesiynol a lleoliadau fferyllol cofrestredig ac i'w
- cefnogi i weithredu'n effeithiol pan fo ganddynt bryderon ynghylch diogelwch

b. Ei gwneud hi'n hawdd i weithwyr fferyllol proffesiynol, perchenogion fferyllfeydd a sefydliadau fferyllol a gofal iechyd

- sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am safonau sy'n hybu proffesiynoldeb a chyfrifoldeb proffesiynol a'n helpu i'w llunio, ac i
- weithredu'n effeithiol pan fo ganddynt ofidion ynghylch diogelwch

c. Gweithio'n agos gyda rheolyddion eraill, cyrff proffesiynol ac eraill i symleiddio'r ffordd y mae'r cyhoedd a chleifion yn cael mynediad i wybodaeth ynghylch rheoleiddio, cau'r bylchu yn y prosesau gwarchod y cyhoedd ac i leihau'r dryswch ac aneffeithlonrwydd a ddaw yn sgil gorgyffwrdd yn y gwaith o reoleiddio

d. Sicrhau bod ein holl waith yn ystyried yn llawn y cyd-destun ledled Prydain Fawr, yn cynnwys y gwahaniaethau polisi, cyfreithiol a'r gwahaniaethau mewn gwasanaethau iechyd yn y gwahanol wledydd

4. Rhagweld ac ymateb i ddatblygiadau mewn fferylliaeth a gofal iechyd

a. Adolygu, mewn ffordd weithredol, y dystiolaeth a'r wybodaeth sydd ar gael ynghylch risgiau mewn fferylliaeth a'u hadlewyrchu yn ein gwaith rheoleiddio

b. Strengthen our horizon-scanning i lywio ein holl waith datblygu a datblygiad ein gweithredoedd rheoleiddio

c. Defnyddio ein hadnoddau a'n rhwydweithiau i ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddatblygiad fferylliaeth a gofal iechyd yn unol â'n hamcanion a'n gwerthoedd rheoleiddio

5. Sicrhau bod gennym y bobl gywir yn gweithio gyda ni a bod polisïau a gweithdrefnau'n sefydliad hefyd yn addas at eu diben

a. Creu diwylliant CFfC sy'n ymgorffori gwerthoedd y Cyngor mewn ffyrdd ymarferol, yn arddangos o fewn ein sefydliad y proffesiynoldeb a ddisgwyliwn hefyd gan aelodau cofrestredig o'r CFfC

b. Adolygu, a phan fo angen, newid ein polisïau a'n gweithdrefnau rheoli er mwyn iddynt allu hyrwyddo'r diwylliant hwnnw

c. Datblygu'r sefydliad mewn lleoliad addas sy'n diwallu anghenion presennol y sefydliad, yn ogystal a'r rhai a ddisgwylir yn y dyfodol

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan yn Saesneg
ac yn y Gymraeg: **www.pharmacyregulation.org/resources/corporate-publications**

Os ydych yn chwilio am y ddogfen hon mewn fformatau eraill,
cysylltwch â'n tîm cyfathrebu ar **communications@pharmacyregulation.org**

Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC)
129 Lambeth Road| Llundain| SE1 7BT
Ffôn: 020 3365 3400
E-bost: info@pharmacyregulation.org
Dyluniwyd gan Tangerine UK

Cyngor
Fferyllol
Cyffredinol